Canllaw Gofal Personol ar gyfer Ysgolion / Canolfannau Adnoddau Arbenigol

Gofal Personol

Mae'r canllawiau hyn wedi'u datblygu mewn ymateb i geisiadau gan ysgolion sy'n dymuno arweiniad clir a chefnogol i gefnogi eu dysgwyr gyda'r gofal personol gorau.
Mae'r canllawiau yn cynnwys model drafft a chyfres o ffurflenni y bydd angen eu haddasu a'u personoli ar gyfer lleoliad eich ysgol.

Beth yw gofal personol?
Mae gofal personol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio gweithgareddau sy'n ymwneud â diwallu anghenion gofal personol plentyn / person ifanc. Mae'n cynnwys darparu gofal sy'n gofyn am gyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol â rhannau preifat o'r corff, neu amlygiad ohonynt, megis:

- newid cewynnau a dillad isaf, padiau ymataliaeth neu offer misglwyf
- helpu plentyn i ddefnyddio'r toiled
- ymdrochi, cawod neu olchi
- **ni fyddai darparu rhai mathau o ofal meddygol arbenigol (megis mewnosod 'suppositories' neu 'pessaries'), yn cael ei gefnogi mewn lleoliad addysgol.**

Gall hefyd gynnwys mathau eraill o ofal corfforol, y cyfeirir ato weithiau fel 'gofal personol', gan gynnwys:

- bwydo
- newid haenau allanol o ddillad
- cymhwyso neu weinyddu meddyginiaeth allanol neu eneuol i gynnwys eli'au.

(Gan gynnwys eli haul)

- gofal gwallt
- golchi rhannau o'r corff nad ydynt yn bersonol (non-intimate body parts)
- annog plant i fynd i'r toiled.

Gellir canfod rhagor o wybodaeth: Gofal personol agos i blant | Dysgu NSPCC

Cefndir:

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGA), sy'n cael ei chynnwys o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010, yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg ail-archwilio pob polisi, ystyried goblygiadau'r Ddeddf ar gyfer ymarfer ac adolygu'r trefniadau presennol. O ystyried arferion hanesyddol nad ydynt bellach yn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd, bydd angen newidiadau yn arbennig lle bynnag y mae rheolau cyffredinol wedi cael eu gosod ynghylch ymataliaeth, sydd wedi bod yn nodwedd o bolisi ysgol ar gyfer derbyn plentyn o dan yr oedran ysgol statudol. Bydd angen i ysgolion hefyd weithredu ar sicrhau eu bod yn darparu cyfleusterau toiledau hygyrch os nad yw hyn ar gael eisoes. Mae unrhyw bolisi ysgol sy'n gosod mesurau cyffredinol ar ymataliaeth, neu unrhyw agwedd arall ar ddatblygiad, ar gyfer pob plentyn yn wahaniaethol ac felly yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf. Rhaid ymdrin â phob mater o'r fath ar sail unigol, a disgwylir i leoliadau wneud addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion pob plentyn.

Mae gofyn i rieni plentyn ddod i newid plentyn yn debygol o fod yn groes i'r Ddeddf Cydraddoldeb, tra bod gadael plentyn mewn cewyn budr, pants am unrhyw gyfnod o amser hyd nes y bydd y rhiant yn dychwelyd yn fath o gamdriniaeth.

Bydd y Corff Llywodraethol yn gweithredu yn unol â

- **Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002;**
  Mae adran 175 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar y cyrff hyn i wneud trefniadau ar gyfer arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles plant.
- **Deddf Cydraddoldeb 2010;**

Canllaw Gofal Personol ar gyfer Ysgolion / Canolfannau Adnoddau Arbenigol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gyfraith yn y DU sy'n gwahardd gwahaniaethu ar sail naw nodwedd warchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
283/2022 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel
Cadw dysgwyr yn ddiogel. Fersiwn grynodeb

- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- ADY
- CCUHP
- Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol | LLYW.CYMRU

Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei gwneud yn ofynnol na ddylid gwahaniaethu ar unrhyw ddisgybl sydd â nam sy'n effeithio ar ei allu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Dylid darllen y canllawiau gofal personol agos hyn ar y cyd â'r holl bolisïau a dogfennaeth ysgolion perthnasol. Cynlluniau trin â llaw / asesiadau risg unigol, Cynlluniau Datblygu Unigol fel a ganlyn:

Amddiffyn Plant

Nid oes **unrhyw reoliadau sy'n nodi bod yn rhaid i ddau aelod o staff fod ar gael i oruchwylio'r broses newid**. Mae gwiriadau DBS yn cael eu cynnal i sicrhau diogelwch y plant.
Os oes risg hysbys o honiadau ffug gan blentyn neu fod y plentyn yn heriol yn gorfforol, yna ni ddylai un ymarferydd ymgymryd â newid ar ei ben ei hun.

Gallai ysgolion ofyn am gyngor arbenigol ynghylch hyfforddiant toileda neu drefniadau toileda arbennig i blant o fewn eu gofal.

Rhagwelir y bydd staff presennol yn gwirfoddoli i gefnogi disgyblion gyda hyfforddiant toileda neu drefniadau toileda arbennig yn yr ysgol a'r cyn-ysgol. Nodir fel rhan o'r disgrifiadau swydd bod yn ofynnol i'r holl staff addysgu a staff dosbarth "*Ofalu am anghenion personol y disgyblion, a gweithredu rhaglenni personol cysylltiedig, gan gynnwys materion cymdeithasol, iechyd, corfforol, hylendid, cymorth cyntaf a lles*". Wrth recriwtio staff newydd mae'n bwysig bod dyletswyddau sy'n ymwneud â gofal personol yn cael eu nodi o fewn y cytundeb cyflogaeth.

Enw'r ysgol: (Rhowch enw'r ysgol)

Canllaw Gofal Personol

Rhesymeg

Ein bwriad yw datblygu annibyniaeth ym mhob plentyn, fodd bynnag, bydd achlysuron pan fydd angen cymorth. Mae ein canllaw gofal personol wedi'u ddatblygu i ddiogelu plant a staff. Mae'n un o ystod o bolisïau penodol sy'n cyfrannu at ein canllawiau gofal bugeiliol. Mae'r egwyddorion a'r gweithdrefnau yn berthnasol i bawb sy'n ymwneud â gofal personol plant.
Dylid trin gwybodaeth am ofal personol yn gyfrinachol.

Bydd ymwybyddiaeth uchel o faterion amddiffyn plant drwy gydol y defnydd o ofal personol a rhaid i ymddygiad staff fod yn agored i graffu a rhaid i staff weithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr ac unrhyw asiantaethau cymorth eraill i ddarparu parhad gofal i blant/pobl ifanc lle bynnag y bo'n bosibl.

Mae staff ysgol wedi'u cwmpasu gan yswiriant awdurdod lleol; er mwyn darparu gofal personol, dylai'r rhieni, iechyd, addysg ac unrhyw asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r teulu gytuno ar y canllawiau ar y cyd â Chynllun Toileda / Cynllun Gofal Iechyd Unigol y disgybl (os yw'n berthnasol).

Mae plant yn gyffredinol yn fwy agored i niwed nag oedolion; ac mae angen i staff sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd ar ofal agos a bugeiliol fod yn sensitif i'w hanghenion unigol.

Gellir diffinio gofal personol fel unrhyw ofal sy'n cynnwys golchi neu gynnal gweithdrefn i ardaloedd personol y mae'r rhan fwyaf o bobl fel arfer yn ei wneud eu hunain, ond nid yw rhai disgyblion yn gallu ei wneud oherwydd eu hoedran ifanc, anawsterau corfforol neu anghenion ychwanegol eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys gofal sy'n gysylltiedig â ymataliaeth, hylifau corfforol a rheoli mislif yn ogystal â thasgau mwy cyffredin fel cymorth gyda golchi, toileda neu wisgo.
Mae gofal personol hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio un-i-un â phlentyn gan roi ffocws cadarnhaol. Wrth ddarparu gofal personol, efallai y bydd plentyn yn dweud wrthych am rywbeth sydd wedi digwydd iddynt, neu efallai y byddwch chi'n nodi pryderon diogelu posibl. Os yw plentyn yn dweud rhywbeth pryderus, os ydych chi'n sylwi ar newidiadau yn ymddygiad plentyn, neu os ydych chi'n sylwi ar friwiau neu farciau anesboniadwy, dylech roi gwybod am eich pryderon i'ch arweinydd amddiffyn plant enwebedig ar unwaith.
Gellir dod o hyd i ragor o fanylion o ymweld â'r NSPCC - https://learning.nspcc.org.uk/child-health-development/intimate-care
Dilynwch eich gweithdrefnau diogelu.

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd gofal o'r fath yn cynnwys glanhau at ddibenion hylendid fel rhan o rolau a chyfrifoldebau'r staff. (Mae hyn yn ymwneud â disgybl, offer a / neu gyfleusterau).

Gellir diffinio gofal personol fel unrhyw weithgaredd sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion personol plentyn unigol neu berson ifanc yn rheolaidd neu gall fod yn ddigwyddiad ynysig.
Gall gweithgareddau o'r fath gynnwys y canlynol a gallai fod yn gysylltiedig â'u Cynllun Gofal Iechyd Unigol:

- bwydo

Canllaw Gofal Personol ar gyfer Ysgolion / Canolfannau Adnoddau Arbenigol

- gofal y geg
- golchi
- newid dillad
- toileda
- rhoi /gosod eli
- gofal mislif
- cymorth cyntaf a chymorth meddygol,
- goruchwylio plentyn sy'n cyflawni hunan-ofal annibynnol.

Mae gan rieni gyfrifoldeb i gynghori'r ysgol am unrhyw anghenion gofal personol hysbys sy'n ymwneud â'u plentyn. (Atodiad 1). Os ystyrir bod angen cynllun gofal personol, rhaid cael caniatâd rhieni / gofalwyr.

Rhaid i ysgolion sicrhau bod system bontio gref ar waith rhwng Ysgol/Lleoliadau, a bod rhieni yn cael y cyfle i drafod unrhyw anghenion gofal personol yn ystod y cyfarfod derbyn arfaethedig.

Bydd yr agweddau hyn hefyd yn cael eu monitro drwy'r Archwiliad Diogelu Blynyddol.

Egwyddorion Arfer Da mewn Gofal personol

Dyma egwyddorion sylfaenol gofal personol y mae ein canllawiau wedi'u seilio arnynt:

- Mae gan bob plentyn hawl addysgol waeth beth fo'u hanawsterau gyda'u sgiliau hunangymorth annibynnol
- Mae gan bob plentyn yr hawl i fod yn ddiogel
- Mae gan bob plentyn yr hawl i breifatrwydd personol
- Mae gan bob plentyn yr hawl i gael ei werthfawrogi fel unigolyn
- Mae gan bob plentyn yr hawl i gael ei drin gydag urddas a pharch
- Mae gan bob plentyn yr hawl i fod yn rhan o'u gofal personol eu hunain hyd eithaf eu gallu
- Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi eu barn ar eu gofal personol eu hunain ac i ystyried safbwyntiau o'r fath
- Mae gan bob plentyn yr hawl i gael lefelau o ofal personol sy'n briodol ac yn gyson
- Dylai ysgolion weithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr ac asiantaethau allanol i gynllunio ar gyfer anghenion toileda/hyfforddiant toileda effeithiol ac unrhyw anghenion gofal personol eraill, gan gydnabod efallai na fydd rhai plant yn cyflawni ymataliaeth a thoileda yn annibynnol.
- Mae'n hanfodol i ysgolion a chartrefi gael perthynas effeithiol; tra bod angen darparu gofal personol i unigolion. Efallai y bydd yn ofynnol i rieni gasglu eu plentyn ifanc ar rai achlysuron lle efallai na fydd cyfleusterau'n ddigonol o fewn lleoliad yr ysgol i ddarparu'r gofal personol sydd ei angen ar yr adeg benodol honno.

Cyfrifoldebau Ysgol

Bydd yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant yn destun i weithdrefnau recriwtio diogelu arferol. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr ar leoliad gwaith a gwirfoddolwyr.
Mae fetio yn cynnwys gwiriadau DBS ar lefel uwch a dau gyfeirnod ysgrifenedig.

Dim ond yr aelodau hynny o staff sy'n gyfarwydd â'r canllawiau gofal personol a pholisïau gofal bugeiliol eraill yr ysgol sydd i fod yn rhan o ofal personol y disgyblion. Mae'n arfer dda i

Canllaw Gofal Personol ar gyfer Ysgolion / Canolfannau Adnoddau Arbenigol

ysgolion rannu'r canllawiau gofal personol gyda myfyrwyr. **Fodd bynnag, nid yw'n briodol i fyfyrwyr a gwirfoddolwyr ddarparu gofal personol ar gyfer unrhyw blentyn /Person Ifanc.**

Lle mae angen gofal personol; cytunir ar drefniadau gofal personol rhwng yr ysgol a'r rhieni ac os yw'n briodol, gan y plentyn. Mae cytundebau gofal personol yn cael eu llofnodi gan y rhiant a'u storio yn ffeil y plentyn. Dim ond mewn argyfwng y byddai staff yn ymgymryd ag unrhyw agwedd ar ofal personol nad yw wedi'i gytuno rhwng rhieni a'r ysgol. Byddai'r ysgol yn cysylltu a'r rhieni ar unwaith.

Dylid adolygu trefniadau gofal personol yn dymhorol **o leiaf** neu os bydd unrhyw sefyllfaoedd / amgylchiadau penodol yn newid. Dylid ceisio ystyried barn yr holl barïion perthnasol i lywio trefniadau yn y dyfodol.

Os oes gan aelod o staff bryderon am ymarfer gofal personol cydweithiwr, rhaid iddynt roi gwybod am hyn i'r person dynodedig ar gyfer amddiffyn plant.

Mae angen i'r ysgol fod yn ystyriol o unrhyw aelodau o staff a allai fod ag unrhyw gyflyrau iechyd sylfaenol neu yn ystod beichiogrwydd lle na fyddai'n argymell iddynt ymgymryd â gofal personol.

Canllawiau ar gyfer Arfer Da

Bydd yr ysgol yn nodi man newid addas ar gyfer disgyblion, er mwyn galluogi preifatrwydd i'r disgyblion ac i ddarparu digon o staff i ddiogelu'r disgybl. **Argymhellir, lle bo'n bosibl, bod gofal personol yn cael ei ddarparu gan un person**; mae hyn yn sicrhau urddas y plentyn/person ifanc dan sylw; fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron lle mae asesiad risg yn dangos bod hyn yn drefniant anaddas ac efallai y bydd angen dau aelod o staff.

NB Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddai disgwyl i rieni / gofalwyr fynychu'r ysgol i gefnogi anghenion gofal personol eu plentyn.

Os nad yw'r ysgol yn gallu darparu trefniadau gofal personol digonol, yna bydd y rhieni / gofalwr yn cael eu galw, os yw hyn yn gofyn i'r plentyn adael safle'r ysgol gyda'r rhiant yna mae disgwyliad y bydd y rhiant yn dychwelyd y plentyn i'r ysgol i gwblhau'r diwrnod ysgol.

Mae gan bob plentyn yr hawl i fod yn ddiogel ac i gael eu trin ag urddas a pharch. Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio i ddiogelu plant a staff. Maent yn berthnasol i bob aelod o staff sy'n ymwneud â gofal personol plant / phobl ifanc.

Gall plant ifanc a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol fod yn arbennig o agored i niwed. Mae angen i staff sy'n ymwneud â'u gofal personol fod yn arbennig o sensitif i'w hanghenion unigol. (Dylai staff yr ysgol ymgynghori â'r unigolion, Cynllun Datblygu Unigol / Proffil un dudalen / asesiad risg unigol ac ati)

1. **Cynnwys y plentyn / person ifanc (P/PI) yn y gofal personol**

Bydd y plentyn yn cael ei gefnogi i gyflawni'r lefel uchaf o ymreolaeth sy'n bosibl o ystyried ei oedran a'i gallu. Bydd staff yn annog pob P/PI i wneud cymaint drostynt eu hunain â phosibl. Gall hyn olygu, er enghraifft, rhoi cyfrifoldeb i'r P/PI am olchi eu hunain. Bydd Cynlluniau Toileda Unigol yn cael eu llunio ar gyfer plant penodol a phobl ifanc fel y bo'n briodol i weddu i'r amgylchiadau.

Canllaw Gofal Personol ar gyfer Ysgolion / Canolfannau Adnoddau Arbenigol

Pan fo sefyllfa yn gwneud P/PI yn gwbl ddibynnol; siaradwch am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd gan ddarparu dewis lle bo hynny'n bosibl. Gwiriwch eich ymarfer drwy ofyn i'r plentyn / person ifanc neu'r rhiant am unrhyw ddewisiadau wrth gynnal y gofal personol.

2. **Trin pob P/PI gydag urddas a pharch a sicrhau preifatrwydd sy'n briodol i oedran a sefyllfa y P/PI.**

Lle bo hynny'n briodol, dylai gofal personol bob amser gael ei ddarparu gan un person; oni bai bod asesiad risg yn nodi fel arall.

3. **Gwnewch yn siŵr bod yr ymarfer mewn gofal personol yn gyson.**

Mae'n debygol y bydd gan y P/PI mwy ofalwyr lluosog, mae ymagwedd gyson at yr ofal personol a ddarperir yn hanfodol. Mae cyfathrebu effeithiol rhwng pob parti yn sicrhau bod yr ymarfer yn gyson. Byddai angen i faterion sy'n ymwneud â meysydd cymhleth fod yn eglur o fewn Cynllun toileda / Cynllun Iechyd Unigol y disgyblion, a bydd yno gyfeiriad clir ato.

4. **Byddwch yn ymwybodol o'ch cyfyngiadau eich hun**

Gweithredwch ar weithgareddau yr ydych chi'n eu deall ac yn teimlo'n gymwys i'w ddarparu yn unig.
Os oes amheuaeth, gofynnwch i'r Pennaeth.
Rhaid i rai gweithdrefnau cymhleth gael eu cynnal gan aelodau o staff sydd wedi'u hyfforddi a'u hasesu'n ffurfiol yn unig.

5. **Hyrwyddo hunan-barch cadarnhaol a delwedd y corff.**

Gall yr ymagwedd rydych chi'n ei gymryd at ofal personol gyfleu llawer o negeseuon i B/PI am werth eu corff. Mae eich agwedd at ofal personol P/PI yn bwysig. Gan gadw mewn cof oedran y plentyn, gall gofal arferol fod yn effeithlon ac yn hamddenol.

6. **Os oes gennych unrhyw bryderon, rhaid i chi roi gwybod amdanynt.**
Os byddwch yn sylwi ar unrhyw farciau anarferol, afliwiad neu chwyddo, rhowch wybod amdano ar unwaith i'r person dynodedig ar gyfer amddiffyn plant a'i gofnodi yn y log arsylwi perthnasol. Cofnodwch hyn ar system fewnol yr ysgol a/neu IMS (System rheoli digwyddiadau) sydd i'w gweld ar Ceri. Os yw'n bryder brys, rhaid ei adrodd ar unwaith i'r Person Dynodedig ar gyfer Diogelu (PDD) / Pennaeth.

Os yw plentyn yn cael ei anafu yn ddamweiniol yn ystod y gofal personol neu'n camddeall neu'n camddehongli rhywbeth, cysurwch y plentyn, sicrhau eu diogelwch a rhowch wybod am y digwyddiad ar unwaith i'r person dynodedig. Adrodd a chofnodi unrhyw ymateb emosiynol neu ymddygiadol anarferol gan y plentyn. Dilynwch weithdrefnau Rheoli Digwyddiadau a rhowch fanylion am y digwyddiad / damwain i rieni ar yr un diwrnod.

Os yw P/ PI yn mynd yn ofidus neu'n anhapus am y gofal personol a ddarperir, dylid cynnal trafodaethau ar y cyfle cynharaf. Efallai y bydd angen newid y trefniadau a gytunwyd arnynt. Bydd cyngor pellach yn cael ei gymryd gan asiantaethau allanol os oes angen.

Os yw P/ PI neu riant/gofalwr yn gwneud honiad yn erbyn aelod o staff, rhaid dilyn yr holl weithdrefnau amddiffyn plant angenrheidiol, a rhaid hysbysu'r person dynodedig ar unwaith ynghyd â Swyddog Diogelu yr ALl. (Gweler Polisi Amddiffyn Plant ysgolion am fanylion)

Cysylltwch â Chanolfan Cyswllt Clic (Clic Contact Centre) a gofynnwch i siarad â'r Swyddog Diogelu Ysgolion neu ffoniwch 01545 574000
Rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau gwaith yw 0300 4563554

30ain o Ebrill 2026

Mewn argyfwng, ffoniwch 999 a gofynnwch am yr heddlu
Neu cysylltwch â socservs@ceredigion.gov.uk.

Cyfathrebu â Phlant / Person Ifanc

Cyfrifoldeb yr holl staff sy'n gofalu am B/PI yw sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddull a lefel cyfathrebu'r P/PI. Yn dibynnu ar eu gallu, haeddfedrwydd a'u lefel straen, gall P/PI gyfathrebu gan ddefnyddio gwahanol ddulliau - geiriau, arwyddion, symbolau, symudiadau'r corff, symud y llygaid a phwyntio acg ati.

Er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol:

- gwneud cyswllt llygad ar lefel y P/PI
- defnyddio iaith syml ac ailadroddwch os oes angen
- parhau i esbonio i'r plentyn beth sy'n digwydd hyd yn oed os nad oes ymateb; a
- thrin y plentyn fel unigolyn gydag urddas a pharch.

Darpariaeth Offer Iechyd a Diogelwch

Mae ysgolion yn gyfrifol am waredu'r holl gewynnau / padiau a ddefnyddir gan ddisgyblion yn eu lleoliad ysgol / canolfannau adnoddau.
NB. Ni fyddai'n briodol i ysgolion anfon cewynnau / padiau wedi'u defnyddio adref ar ddiwedd y sesiwn ysgol.

Dylai rhieni ddarparu cyflenwad o ddillad, cewynnau glân, bagiau gwaredu, cadachau ac ati a rhaid i rieni fod yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb hwn.

Mae ysgolion yn gyfrifol am ddarparu menig tafladwy nad ydynt yn latecs, ffedogau tafladwy (os oes angen), bin a leinin i waredu gwastraff.

Gellir gwaredu hyd at dri cewyn y dydd fesul safle trwy wastraff domestig (bin du).

Os rhagwelir cynnydd mewn unedau (Mwy na thri chewyn y dydd), bydd angen cael contract gwaredu gwastraff drwy Paul Williams (Rheolwr Cyfleusterau Ceredigion).

Manylion cyswllt -
Paul Williams Paul.Williams@ceredigion.gov.uk 01970633900
neu
Shaun Bethell Shaun.Bethell@ceredigion.gov.uk 01970633900

Dylai staff bob amser wisgo ffedog a menig wrth ddelio ag unrhyw blentyn / person ifanc sy'n gwaedu, yn wlyb neu wrth newid cewynnau budr.

Dylid trafod gwaredu'r cewynnau / padiau budr yn ystod cyfarfod derbyn / a'u nodi ar y Cynllun Toiledau.

Rhestr Wirio Gofal personol ar gyfer Ysgolion
Mwy na 3 cewyn / padiau y dydd
Dylid rhoi unrhyw wastraff budr (cewynnau a'r holl offer a ddefnyddir) mewn bag

gwaredu gwastraff polywrethan, y mae'n rhaid ei selio.
Gwaredu defnyddio'r bin a ddarperir drwy gontract gwaredu gwastraff.

Cofnodi'r defnydd o Ofal personol :

Pan gytunir y bydd angen gofal personol ar gyfer P/PI, bydd cytundeb rhwng rhieni a'r ysgol yn cael ei gwblhau.

Bydd y cytundeb hwn yn manylu ar ba ofal sydd i'w ddarparu a gan bwy.

Bydd angen mwy nag un person enwebedig (gweler atodiad 1)

Ochr yn ochr â hyn, bydd rhieni a'r ysgol yn gweithio gyda'i gilydd i gwblhau cynllun toiled ar gyfer y P/ PI (gweler atodiad 2)

Ar gyfer pob defnydd o ofal personol, bydd staff yn cofnodi gan ddefnyddio'r log ymyrraeth gofal personol (gweler atodiad 3)

Pan fo materion penodol a allai nodi bod angen i'r gofal personol gael ei ddarparu gan ddau aelod o staff; Rhaid cwblhau asesiad risg a'i gadw ar gofnod y plentyn / person ifanc e.e.: materion trin â llaw, materion diogelu (gweler atodiad 4)

Rhaid adolygu cytundebau gofal personol yn rheolaidd yn ôl anghenion datblygiadol y P/PI; dylai hyn ddigwydd o leiaf unwaith y tymor a bydd y cynllun toiledau wedyn yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

Adolygu
Bydd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

	Enw	Llofnod	Dyddiad
Cadeirydd y Llywodraethwyr			
Pennaeth			

Dyddiad Adolygu	

Atodiad 1

Cytundeb a Chydsyniad i ddefnyddio Gofal personol i Blentyn/Person Ifanc

Pwrpas y cytundeb hwn yw sicrhau bod rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn cytuno â pha ofal sydd i'w roi a bod staff wedi derbyn unrhyw hyfforddiant priodol a allai fod yn berthnasol.

Pan fydd y rhiant/gofalwr a/neu weithwyr proffesiynol yn cytuno bod angen darparu gofal personol agos, bydd y manylion yn cael eu cofnodi'n llawn isod a rhaid i bob parti lofnodi'r cofnod hwn a darparu copi iddynt; mae copi ychwanegol i'w gadw ar ffeil y plentyn / person ifanc yn yr ysgol a lle bo'n briodol mae copi i'w ddarparu ar gyfer cofnod meddygol y plentyn.

Enw'r Plentyn / Person Ifanc:	D.O.B.	Dyddiad y Cytundeb
<u>Rhesymau pam y dylid darparu gofal personol:</u>		
<u>Pwy fydd yn darparu'r gofal hwn</u> (Ar gyfer aelodau staff, rhowch fanylion, enwau a dynodiad y staff hynny a fydd yn darparu gofal):		
A all un aelod o staff ddarparu'r gofal?	Medr	Na fedr
Manylion y gofal i'w ddarparu: (Os oes angen mwy nag un aelod o staff i roi'r gofal, rhowch fanylion)		
Caniatâd a ddarparwyd gan:		
Plentyn/Person ifanc (os yw'n briodol)		
Enw'r rhiant/gofalwr:		
Enw'r rhiant/gofalwr:		
Cytundeb wedi'i lofnodi gan:		
Enw'r rhiant/gofalwr:		
Enw'r rhiant/gofalwr:		
Staff a dynodiad:		
Llofnodion staff:		
Dyddiad y cytundeb i'w adolygu:		
Dyddiad adolygu:		

Canlyniad yr adolygiad i'w gofnodi:	

Atodiad 2

Cynllun Toileda

Enw'r Plentyn / Person Ifanc	D.O.B.	Dyddiad Cytunwyd

	Manylion	Gweithred
<u>Gweithio tuag at annibyniaeth:</u> e.e. mynd â phlentyn/person ifanc i'r toiled ar gyfnodau amserol, gan ddefnyddio arwyddion neu symbolau, unrhyw wobrau a ddefnyddir		
<u>Trefniadau ar gyfer newid cewynnau / padiau:</u> e.e. pwy, ble, pryd, trefniadau ar gyfer preifatrwydd		
<u>Gofynion staffio:</u> e.e. pwy, (dylai fod mwy nag un person a enwir wedi'i nodi yma rhag ofn absenoldeb ac ati)		
<u>Lefel y cymorth sydd ei angen:</u> e.e. dadwisgo, gwisgo, golchi dwylo, siarad/arwyddo â phlentyn/person ifanc		
<u>Rheoli Heintiau:</u> e.e. gwisgo menig tafladwy, trefniadau ar gyfer gwaredu cewynnau / padiau. Yr *angen i lanhau yr offer / ardal.* *(**Hyfforddiant e-ddysgu ar gael)*		
<u>Adnoddau sydd eu hangen:</u> e.e. sedd arbennig, cewynnau / pants codi / padiau, eli'au, sachau tafladwy, dillad newid, step ar gyfer y toiled ag ati		
<u>Rhannu Gwybodaeth:</u> e.e. os oes gan blentyn/person ifanc frech cewynnau neu unrhyw farciau, marciau unigryw, arferion diwylliannol neu deuluol, marciau geni ac ati		

Dyddiad y Cynllun	
Plentyn / Person Ifanc (os yw'n briodol)	
Enw Rhiant	
Llofnod Rhiant	
Enw'r Staff	

Llofnod Staff	
Dyddiad Adolygu	

Cofnod o ofal personol â ddarperir

Enw'r Plentyn / Person Ifanc	Dyddiad geni	Dyddiad y cytundeb GPA

*** Dylai staff sicrhau hylendid da, e.e. golchi dwylo ac arwynebau cyn ac ar ôl gofal ***

Dyddiad	Amser	Gofal â ddarparwyd	Staff ynghlwm	Llofnod	Sylwadau

Atodiad 4

Tîm Iechyd a Diogelwch
Health and Safety Team

Ffurflen Asesiad Risg Cyffredinol / General Risk Assessment Form

***Adran*/Adran**		***Rhif Asesu* / Assessment No:**	
***Adain* /Adran**		***Dyddiad* /Date:**	Cliciwch neu daro yma i deipio dyddiad.
***Asesydd*/Asesydd:**		***Swydd*/Position:**	

Gweithgaredd / Proses
Gweithgaredd / Proses

Nifer a Phobl mewn Perygl
Nifer a Phobl mewn Perygl

	Gweithwyr Gweithwyr	*Eraill* Eraill	*Disgyblion* Disgyblion
1	☐	☐	☐
2-5	☐	☐	☐
6-9	☐	☐	☐
10+	☐	☐	☐

☐	*Gweithiwr* / Gweithiwr	☐	*Gweithiwr unigol* / Lone Worker
☐	*Yn trin arian* / Trin Arian	☐	*Contractwr* / Contractwr
☐	*Oriau anghymdeithasol* Oriau angymdeithasol	☐	*Ymweld â safle* / Ymweld â'r Safle
☐	*Delio â'r cyhoedd*/ Delio â'r cyhoedd	☐	*Staff ifanc sy'n agored i niwed* / Staff ifanc sy'n agored i niwed
☐	*Person Ifanc* / Person Ifanc	☐	*Cyhoedd/Client* / Cyhoeddus / Cleient
☐	*Disgybl Ysgol Babanod* / Disgybl Ysgol Fabanod	☐	*Disgybl Ysgol Gynradd* / Disgybl Ysgol Gynradd
☐	*Disgybl Ysgol Uwchradd* / Disgybl Ysgol Uwchradd		

Perygl sy'n Ymwneud â'r Gweithgaredd / Proses
Perygl sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd / proses

Mesurau / Rheolaethau Diogelwch Presennol
Mesurau / Rheolaethau Diogelwch Presennol

Y Risg(iau) Gweddilliol ***(Ar ôl mesurau rheoli)***	**Y Risg Gweddilliol (Ar ôl mesurau rheoli)**
Os nad oes rhai, ysgrifennwch "Rheolaethau yn ddigonol" isod. Os oes risgiau'n dal i fodoli, nodwch isod a graddiwch y risg(iau) gweddilliol.	Os nad oes dim, ysgrifennwch "Controls adequate" isod. Os yw risgiau yn dal i fodoli, manylwch isod a graddio'r risg (au) weddilliol

	Tebygolrwydd Tebygolrwydd	**x**	**Difrifoldeb Difrifoldeb**	**=**	**Graddfa Sgôr**
		x		=	
		x		=	
		x		=	
		x		=	

Tebygolrwydd **Tebygolrwydd**		***Difrifoldeb*** **Difrifoldeb**		***Graddfa*** **Sgôr Risg**	
1	*Prin* Prin	1	*Dibwys* Arwyddocaol	1-5	*Y risg leiaf – Cynnal mesurau* Risg lleiaf – Cynnal mesurau
2	*Mewngofnodi* Annhebygol	2	*Bach* Mân	6-10	*Risg isel – Adolygu risgiau* Risg isel – Adolygu risgiau
3	*Posibl* Posibl	3	*Cymedrol* Cymedrol	11-15	*Risg gymedrol – Rheolaethau ychwanegol mewn 12 mis* Risg gymedrol – Rheolaethau ychwanegol mewn 12 mis
4	*Tebygol* Tebygol	4	*O bwys* Mawr	16-25	*Risg Uchel – Gweithredu rheolaeth ychwanegol ar unwaith* Risg Uchel – Rheolaeth ychwanegol wedi'i weithredu ar unwaith
5	*Bron yn sicr* Bron yn sicr	5	*Trychinebus* Trychinebus		

Gweithredu rheolaethau a monitro / Implementation of controls and monitoring
Mae angen rheolaethau ychwanegol i leihau risg(iau) islaw graddfa risg o 5 /
Rheolaethau ychwanegol sy'n ofynnol i leihau risg(au) islaw sgôr risg o 5

Cytunwyd ar reolaethau ychwanegol Do / Naddo (Os Do, manylwch ar y Camau i'w cymryd)
/
Cytunwyd ar reolaethau ychwanegol Ydw / Nac ydw (Os oes, manylwch ar y Camau i'w cymryd)

Dyddiad targed ar gyfer gweithredu Target date for implementation	*Llofnod – Rheolwr Llinell Cyfrifol / Pennaeth Cyfrifol* Llofnod – Rheolwr Llinell Cyfrifol / Pennaeth
Cliciwch neu daro yma i	

deipio dyddiad.	

Adolygiad asesu / Assessment review

Dyddiad gweithredu Dyddiad gweithredu:	Cliciwch neu daro yma i deipio dyddiad.	*Rheolaethau yn Effeithiol* Rheolaethau Effeithiol	*Ydyn / Nac ydyn* Ydw / Nac ydw
Sylwadau / Comments:			
Dyddiad targed ar gyfer gweithredu Target date for implementation		*Llofnod – Rheolwr Llinell Cyfrifol / Pennaeth Cyfrifol* Llofnod – Rheolwr Llinell Cyfrifol / Pennaeth	
Cliciwch neu daro yma i deipio dyddiad.			

Atodiad 5

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Ysgrifennaf atoch i rannu gwybodaeth bwysig ynghylch 'parodrwydd ar gyfer yr ysgol', sy'n berthnasol i'n holl ysgolion ar draws Ceredigion.

Ein nod yw sicrhau ein bod yn hyrwyddo datblygiad cyfannol pob plentyn, sy'n golygu ein bod yn cefnogi pob disgybl gan gynnig profiadau cyfoethog a chadarnhaol iddynt, tra byddant yn yr ysgol. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd sylweddol, yn lleol ac yn genedlaethol, yn nifer y plant sy'n dechrau'r ysgol yn dal i wisgo cewynnau neu bants '*pull up*'.

Yn unol â chanllawiau'r GIG, y disgwyliad yw na fydd plant sy'n dechrau'r ysgol yn gwisgo cewynnau na phants '*pull up*'.

Rydym yn cydnabod bod pob plentyn yn wahanol ac yn datblygu ar wahanol adegau. Fodd bynnag, mae parodrwydd i ddefnyddio'r toiled cyn dechrau'r ysgol yn bwysig ar gyfer cysur, annibyniaeth, hyder a lles plant. I'r rhai hynny sydd angen mwy o amser neu gymorth ychwanegol, byddwn yn ymrwymo i weithio'n agos gyda chi i gefnogi anghenion eich plentyn. Mae dechrau'r ysgol yn newid mawr, a gall dysgu sgil newydd ar yr un pryd fod yn heriol i chi a'ch plentyn. Rydym yn annog teuluoedd i ganiatáu digon o amser ar gyfer hyfforddiant defnyddio'r toiled fel bod straen yn cael ei gadw i'r lleiafswm a bod modd cael cymorth os oes angen.

Mae defnyddio'r toiled yn golygu bod eich plentyn yn gallu adnabod pryd mae angen y toiled a'i ddefnyddio'n annibynnol, ond rydym yn cydnabod bod damweiniau yn medru digwydd. Bydd unrhyw ddamweiniau yn yr ysgol yn cael eu trin yn gyflym, yn dawel ac yn sensitif.

Os oes angen cefnogaeth arnoch i ddysgu'ch plentyn sut i ddefnyddio'r toiled, cysylltwch â'ch ymwelydd iechyd, Hwb ymwelwyr iechyd ar 0300 3038322 neu'ch meddyg teulu, a fydd yn gallu eich cyfeirio at y gefnogaeth briodol.

Gellir cael cefnogaeth teuluol hefyd gan *Dechrau'n Deg Ceredigion* sy'n cynnig sesiynau cymorth 1-i-1 a sesiynau grŵp, ble y gwelir hysbysebion am y sesiynau penodol hynny ar eu hysbysfwrdd rhianta a chymorth teuluoedd o dan y ddolen hon.

Gellir cael cymorth a chyngor ychwanegol trwy'r ddolen yma hefyd sy'n cynnwys gwybodaeth defnyddiol gan Elusen y Coluddyn a'r Bledren i Blant ERIC.

Diolchwn i chi am eich cydweithrediad a'ch dealltwriaeth ar y mater hwn a gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth i sicrhau bod eich plentyn yn gallu defnyddio'r toiled cyn dechrau'r ysgol, gan gofio bod yna gefnogaeth ar gael.

Yn gywir,

30ain o Ebrill 2026

Canllaw Gofal Personol ar gyfer Ysgolion / Canolfannau Adnoddau Arbenigol

Dear Parents/Guardians,

I am writing to share important information with you regarding 'school readiness', which is relevant to all school settings across Ceredigion.

Our goal is to ensure that we promote each child's holistic development, which means that we support and nurture every pupil and provide them with a positive and enriching experience, whilst at school. However, over the past few years there has been a noticeable increase in the number of children starting school still in nappies or pull-ups, both locally and nationally.

In line with NHS guidelines, the expectation is that children starting school will not be wearing nappies or pull ups.

We recognise that every child is different and develops at their own pace. However, being toilet trained before starting school is important for children's comfort, independence, confidence and wellbeing. For those who may need additional time or support, we are committed to working closely with you to support your child's needs.
Starting school is a big transition, and learning a new skill at the same time can be challenging for both you and your child. We encourage families to allow enough time for toilet training so that stress is kept to a minimum and support can be accessed if needed.

Being toilet trained means your child can recognise when they need the toilet and use it independently, but we understand that accidents happen. Any accidents at school will be dealt with quickly, calmly and with sensitivity.

If you require support in potty training, please contact your health visitor, the health visiting Hub on 0300 3038322 or your GP, who will be able to direct you to support. Ceredigion Flying Start also support families and offer 1-2-1 and group support sessions, with specific sessions being advertised on their parenting and family support noticeboard, which you can find here.

Additional support and guidance is also available here, including excellent advice from ERIC The Children's Bowel and Bladder.

We thank you for your cooperation and understanding on this matter and kindly ask for your support in ensuring that your child is toilet trained in readiness for school, remembering that there is support available.

Sincerely,

30ain o Ebrill 2026